# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant

2020 - 2021

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |
| onestrwydd | Uniondeb | Tryloywder | Bod | yn | agored | Monitro | Gwella | Cyfra |

sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Rhagair gan y Cadeirydd** | | | |
| **1.** | **Cyflwyniad** | | | **4** |
| **2.** | **Trosolwg o waith y Pwyllgor 2020/21** | | | **4** |
| | **2.1** | **Nifer y Cyfarfodydd** | | **4** |
| | **2.2** | **Y Flaenraglen Waith** | | **4** |
| | | **2.2.1** | **Adroddiadau a Ddosbarthwyd y tu allan i Broses y Pwyllgor** | **5** |
| | **2.3** | **Monitro Perfformiad/Materion Strategol** | | **5** |
| | | **2.3.1** | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin (Hanner Blwyddyn - 1 Ebrill tan 30 Medi, 2020)** | **6** |
| | | **2.3.2** | **Cynllun Busnes Corfforaethol 2020/21 yr Adran Addysg a Phlant** | **6** |
| | | **2.3.3** | **Strategaeth Gorfforaethol** | **6** |
| | | **2.3.4** | **Llesiant ac Iechyd Meddwl Staff a Disgyblion** | **7** |
| | | **2.3.5** | **Strategaeth 10 Mlynedd a Hunanwerthuso'r Adran** | **7** |
| | | **2.3.6** | **Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau** | **7** |
| | **2.4** | **Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf** | | **7** |
| | | **2.4.1** | **Adroddiadau Monitro Cyllideb** | **7** |
| | | **2.4.2** | **Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/21 tan 2022/23** | **7** |
| | | **2.4.3** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant 2019-20** | **8** |
| | **2.5** | **Ysgolion** | | **8** |
| | | **2.5.1** | **Rhaglen Moderneiddio Addysg** | **8** |
| | | **2.5.2** | **Cynnig i fyrhau'r broses ddemocrataidd fewnol ar gyfer cymeradwyo ymgynghoriadau statudol** | **9** |
| | | **2.5.3** | **Strategaeth Addysg 2020-2030** | **9** |
| | | **2.5.4** | **Adroddiad Estyn ac Adolygiad Mewnol ar yr Ymateb i Covid / Cymorth Addysg i Ddysgwyr Agored i Niwed** | **9** |
| | | **2.5.5** | **Cynllun Gweithredu Trawsnewid ADY (Fframwaith Ymweliadau Ysgolion Craffu gynt) (Anghenion Dysgu Ychwanegol)** | **10** |
| | | **2.5.6** | **Adroddiad Terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Cyllid ADY** | **10** |
| | | **2.5.7** | **Effaith Covid-19 ar Blant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin** | **10** |
| | | **2.5.8** | **Diweddariad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** | **10** |
| | | **2.5.9** | **Cwricwlwm i Gymru** | **11** |
| | **2.6** | **Yr Adroddiadau Ychwanegol y Gofynnwyd Amdanynt** | | **11** |
| | **2.7** | **Ymgysylltu â'r cyhoedd** | | **11** |
| **3.** | **Gweithgarwch Craffu Arall** | | | **11** |
| | **3.1** | **Gorchwyl a Gorffen** | | **11** |
| | **3.2** | **Ymweliadau Safle** | | **11** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **3.2.1** | **Ysgolion** | **11** |
| | **3.3** | **Sesiynau Datblygu** | | **12** |
| **4.** | **Heriau** | | | **12** |
| **5.** | **Gwaith yn y Dyfodol** | | | **12** |
| **6.** | **Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu** | | | **13** |
| **7.** | **Presenoldeb** | | | **14** |

## Rhagair y Cadeirydd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2020/21.

Roedd yn flwyddyn heriol o ganlyniad i bandemig Covid a bu galw am gamau gweithredu a ffyrdd o weithio na ragwelodd yr un ohonom. Bu’n rhaid i ni atal llawer o'n ffyrdd cyffredin o weithio o ganlyniad i’r pandemig - dim mwy o gyfarfodydd y Pwyllgor yn Neuadd y Sir, dim ymweliadau ysgol a bu'n rhaid atal ymweliadau safle a drefnwyd â Gwasanaethau Plant.

Hoffwn ddiolch i aelodau etholedig a chyfetholedig y Pwyllgor am eu cyfraniad a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf wrth geisio craffu ar berfformiad a pholisïau'r Awdurdod.

Ers i gyfarfodydd ar-lein y Pwyllgor ailddechrau, mae aelodau wedi treulio llawer o amser yn craffu ar ymateb yr Awdurdod i'r pandemig, a gafodd effaith sylweddol ar yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi craffu ar strategaeth 10 mlynedd y Gwasanaeth Addysg, cynigion i fyrhau'r broses ddemocrataidd fewnol ar gyfer penderfyniadau ar drefniadaeth ysgolion, iechyd meddwl a llesiant staff a disgyblion, yr heriau ariannol sy'n wynebu ysgolion, cynigion Cyllideb Refeniw a Chyfalaf yr Adran ar gyfer 2021/22, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, cynlluniau'r Cyngor i roi'r cwricwlwm newydd ar waith ac effaith y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod nifer o gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion.

Unwaith eto hoffwn ddiolch i'r Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddogion Addysg a Gwasanaethau Plant am eu cyfraniad a'u proffesiynoldeb wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn heriol i bawb.

Mae'n amlwg bod y Swyddogion Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Arweinwyr Ysgol wedi gorfod ymateb i nifer sylweddol o heriau o ganlyniad i bandemig Covid, gan geisio hefyd reoli newidiadau cenedlaethol sylweddol megis datblygu cwricwlwm newydd i Gymru a gwneud gwaith diwygio sylweddol i'r system ADY. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i bob un ohonynt.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda Swyddogion, Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn 2021/22, a fydd yn flwyddyn fwy cadarnhaol. Edrychaf ymlaen hefyd at helpu i gefnogi a datblygu Addysg a Gwasanaethau Plant yn Sir Gaerfyrddin ymhellach.



**Y Cynghorydd Darren Price**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Prif nod yr adroddiad yw amlygu gwaith y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant yn ystod 2019/20. Y bwriad yw rhoi cyfle i aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i hwyluso trafodaethau ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan y Cynghorydd Darren Price ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig a 5 o Aelodau Cyfetholedig â Phleidlais (3 rhiant-lywodraethwr etholedig, 1 cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru ac 1 cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig). Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

## 2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2020/21

### 2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu bum cyfarfod ffurfiol ym mlwyddyn y Cyngor 2020/21. Cafodd y cyfarfodydd a oedd i fod i'w cynnal o fis Ebrill i fis Tachwedd 2020 eu canslo a'u gohirio oherwydd y Pandemig Coronafeirws. Ailddechreuodd y cyfarfodydd ym mis Tachwedd ar ôl i Lywodraeth Cymru basio rheoliadau brys dros dro i lacio rhai o'r rheolau oedd yn ymwneud ag ymddygiad busnes y cyngor.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiadau ymgynghori ar y gyllideb yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021.

### 2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn llunio ei Flaenraglen Waith ei hun. Ym mis Tachwedd 2020 cyfarfu'r Pwyllgor i ystyried ei Flaenraglen Waith 2020/21 a nododd eitemau i'w hystyried yn ystod blwyddyn y Cyngor sydd i ddod. Roedd hyn yn golygu cynnwys eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad, cyllideb a chynlluniau gweithredu. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan yr aelodau yn y cyfarfodydd hynny ac yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith a gadarnhawyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2020.

Yn sgil ffurfio cysyniad y Flaenraglen Waith, ei datblygu a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob Pwyllgor Craffu benderfynu ar ei agendâu ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau.

Dyma gyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant:

- Safonau Addysgol a Pherfformiad Ysgolion
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Moderneiddio Ysgolion
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gwasanaethau Ieuenctid
- Troseddau Ieuenctid
- Prydau Ysgol
- Gwasanaethau Plant gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Craffu Un Diwrnod, ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau.

Oherwydd y pandemig a'r adleoli staff a ddeilliodd o hynny, cafodd y prosiect Gorchwyl a Gorffen presennol ei ohirio. Mae'r Pwyllgor bellach wedi penderfynu adolygu cwmpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Yn ogystal, ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle.

### 2.2.1 Adroddiadau a Ddosbarthwyd y tu allan i Broses Ffurfiol y Pwyllgor

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor i dderbyn rhai adroddiadau trwy e-bost yn hytrach na thrwy broses ffurfiol y pwyllgor, dosbarthwyd yr adroddiadau canlynol i'r Pwyllgor yn ystod blwyddyn y Cyngor 2020/21: -

- Adroddiadau monitro cyllideb
- Adroddiadau ynghylch Monitro Perfformiad
- Adroddiadau'r Strategaeth Gorfforaethol

## 2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

**Adroddiadau Monitro Perfformiad** - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau

monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

**2.3.1 Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin (Hanner Blwyddyn - 1 Ebrill tan 30 Medi 2020)** - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Ym mis Ionawr 2021 bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Perfformiad Hanner Blwyddyn y Cyngor ar gyfer 2020/21 (1 Ebrill tan 30 Medi 2020) a oedd yn cynnwys rhannau ar gyfer ei faes gorchwyl gwasanaeth a luniwyd yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adrannau canlynol yn yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant:-

- **AMCAN LLESIANT 1** –
    - % y plant sy'n mynychu lleoliad gofal plant am ddim Dechrau'n Deg a neilltuwyd
    - % yr absenoldeb anawdurdodedig mewn lleoliad gofal plant am ddim Dechrau'n Deg a neilltuwyd
- **AMCAN LLESIANT 3** –
    - % yr ysgolion y graddiwyd eu bod yn "Dda" neu'n "Foddhaol" am gyflwr yr adeiladau.
    - % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd
    - % absenoldeb awdurdodedig mewn ysgolion cynradd
    - % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd
    - % absenoldeb awdurdodedig mewn ysgolion uwchradd
- **AMCAN LLESIANT 4** –
    - % Rhai sy'n gadael Blwyddyn 13 Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs)
    - % Rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs)

**Canlyniad**

Cymeradwyodd y Cyngor Sir Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2020-21 yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021.

**2.3.2 Cynllun Busnes yr Adran Addysg a Phlant 2020/21** - Ym mis Ebrill, 2021 rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gynllun Busnes yr Adran Addysg a Phlant 2021/22, a oedd yn amlinellu nodau, amcanion a blaenoriaethau'r adran ar gyfer 2021-22. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr adran ar gyfer y flwyddyn, a gwneud sylwadau yn eu cylch.

**2.3.3. Strategaeth Gorfforaethol** - Ym mis Chwefror 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft ddiweddaraf ar gyfer 2018-23, ynghyd â'r Amcanion Llesiant perthnasol. Roedd y dogfennau wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n

datblygu, effaith Pandemig Covid-19, Brexit a newid yn yr hinsawdd.

**2.3.4 Llesiant ac Iechyd Meddwl Staff a Disgyblion -** Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am lesiant ac iechyd meddwl staff a disgyblion o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cymorth ychwanegol a'r mesurau ataliol a roddwyd ar waith gan yr Adran Addysg a Phlant. Er mai canolbwyntio ar lesiant disgyblion a staff ysgol oedd yr adroddiad, roedd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at lesiant pobl ifanc eraill nad oeddent efallai yn yr ysgol ond yr oedd yr Adran dal yn gyfrifol amdanynt e.e. oedolion ifanc yn y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid.

**Canlyniad:**
Bu i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant godi gyda'r Bwrdd Gweithredol y mater o lobïo Llywodraeth Cymru i ofyn am i athrawon gael eu cynnwys yn uchel ar y rhestr o'r rheiny oedd i'w brechu.

**2.3.5 Strategaeth 10 Mlynedd a Hunanwerthuso'r Adran -** Y bwriad oedd bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, fodd bynnag, oherwydd Covid-19 nid oedd modd gwneud hyn. Cynigiwyd felly y dylid cwblhau'r adroddiad mewn gweithdy hanner diwrnod ac yna ei alinio â chynllunio busnes a gwaith grwpiau strategol gyda dyddiad cyflwyno diwygiedig i'w gadarnhau.

**2.3.6 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau** - Yn ystod blwyddyn y cyngor gwneir sawl cais am eitemau/gwybodaeth ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl o graffu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor sy'n darparu diweddariad ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

Oherwydd y pandemig a'r ffaith na chafwyd unrhyw gyfarfodydd am nifer o fisoedd, ni chafodd unrhyw ddiweddariadau o ran Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020/21.

## 2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

**2.4.1 Adroddiadau Monitro'r Gyllideb** - Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol ynghylch monitro'r cyllidebau adrannol, refeniw corfforaethol a chyfalaf. Roedd yr adroddiadau hyn yn galluogi'r aelodau i fonitro lefel y gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag unrhyw waith cyfalaf ac i godi unrhyw bryderon yn y cyfarfod ffurfiol, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

**2.4.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21 tan 2022/23** - Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21 tan 2022/23. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y gyllideb

refeniw ar gyfer 2020/21, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23.

**Canlyniad:**
Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21 i 2022/23, bu'r Pwyllgor yn ystyried cynigion y gyllideb. Gwnaethpwyd nifer o sylwadau ond ni chyflwynodd y Pwyllgor unrhyw argymhellion i newid unrhyw un o'r cynigion.

**2.4.3 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant 2019/20 -** Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'w Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 ym mis Tachwedd, 2020 a oedd, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 2.5 Ysgolion

**2.5.1 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg** – Mewn gwahanol gyfarfodydd yn ystod 2020/21, fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynghylch y cynigion canlynol ar gyfer newidiadau i ysgolion:-

- symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120
- adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Blaenau a Llandybïe
- ad-drefnu ac ailfodelu'r gwasanaethau cymorth ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
- newid ystod oedran Ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir o 4-11 i 3-11
- adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Mynyddygarreg a Gwenllian
- newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Model
- newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Felin

**Canlyniad:**
Cymeradwywyd y cynnig cyntaf gan y Pwyllgor ar 23 Tachwedd 2020 ac fe'i hystyriwyd wedyn gan y Bwrdd Gweithredol ar 21 Rhagfyr 2020 a'r Cyngor ar 12 Mai 2021 (oherwydd bod y cyfarfod a drefnwyd ym mis Ebrill wedi'i ganslo).

Cymeradwywyd ail, trydydd, pedwerydd a phumed cynnig y Rhaglen Moderneiddio Addysg gan y Pwyllgor ar 23 Tachwedd, 2020 a'u hystyried wedi hynny gan y Bwrdd Gweithredol ar 21 Rhagfyr, 2020 lle penderfynwyd dechrau ar yr ymgynghoriad ffurfiol yn ystod Tymor y Gwanwyn 2021 a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

Cymeradwywyd chweched a seithfed cynnig y Rhaglen Moderneiddio Addysg gan y Pwyllgor ar 28 Ionawr, 2021 a'u hystyried wedi hynny gan y Bwrdd Gweithredol ar 8 Chwefror, 2021 lle penderfynwyd dechrau ar yr ymgynghoriad ffurfiol a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

**2.5.2 Cynnig i fyrhau'r broses ddemocrataidd fewnol ar gyfer cymeradwyo ymgynghoriadau statudol** - Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod pob aelod o dîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg (MEP), o ganlyniad i bandemig Covid-19, wedi'u hadleoli am gyfnod o tua 4 mis i weithio mewn meysydd hollbwysig eraill yn yr adran ac felly dim ond ychydig bach iawn o waith prosiect y gallent ei gwblhau. Cyn y pandemig, roedd y tîm wedi bwriadu cynnal nifer o ymgynghoriadau statudol (mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion neu faterion ffedereiddio) gan ddechrau ar unwaith, a bu'n rhaid gohirio pob un ohonynt, gyda dyddiadau newydd i'w cadarnhau. Nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw waith ad-drefnu ysgolion statudol a fyddai wedi'i ddwyn ymlaen o ganlyniad i gasgliad adolygiad y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

Arweiniodd y gwaith o adleoli tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg at oedi o tua 6 mis o ran cynigion ad-drefnu ysgolion oherwydd yr angen i sefydlu amserlenni newydd ar gyfer pob cynnig a diweddaru'r holl ddogfennau gyda'r setiau data diweddaraf. O ran rhaglen fuddsoddi Cyngor Sir Caerfyrddin, caewyd pob prosiect gyda chontractwyr ar y safle ar adeg y cyfyngiadau symud cychwynnol, gyda dyddiadau ailgychwyn yn cael eu cymeradwyo'n barhaus i ganiatáu i waith barhau. O ganlyniad, rhagwelwyd y bydd y pandemig yn cael effaith sylweddol ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg o ran cyllid ac amserlenni.

**2.5.3 Strategaeth Addysg 2020-2030** - Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Gwasanaethau Addysg. Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldebau diffiniedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc. Mae'r strategaeth hon yn nodi gweledigaeth glir ar y cyd ar gyfer y rôl y mae'r Gwasanaethau Addysg yn ei chwarae o ran datblygu cymunedau bywiog ac economi lewyrchus yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

**Canlyniad:**
Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y strategaeth, yn dilyn adborth gan y Bwrdd Gweithredol, bellach yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd o 2020-2030.

**2.5.4 Adroddiad Estyn ac Adolygiad Mewnol ar yr Ymateb i Covid / Cymorth Addysg i Ddysgwyr Agored i Niwed** - Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o sut y mae'r Awdurdod Lleol a'r rhanbarth wedi gweithio gydag ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod Covid-19 rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2020 h.y. y cyfnod ar ôl y cyfyngiadau symud cychwynnol wrth i ysgolion ailagor.

**2.5.5 Cynllun Gweithredu Trawsnewid ADY (Fframwaith Ymweliadau Ysgolion Craffu gynt) (Anghenion Dysgu Ychwanegol)** – Roedd yr adroddiad i fod i gael ei ystyried ym mis Ebrill, 2021 ond nid oedd y canllawiau terfynol wedi dod i law eto gan Lywodraeth Cymru, a'r bwriad bellach yw ei ystyried ym mlwyddyn y Cyngor 2021/22.

**Canlyniad:**
Cytunwyd y byddid yn trefnu ei ystyried ym mlwyddyn y Cyngor 2021/22.

**2.5.6 Adroddiad Terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Cyllid ADY** - Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb terfynol o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i gynnal adolygiad o'r model cyllido ADY mewn ysgolion. Mae'r cymorth ariannol ar gyfer ADY wedi bod o dan lawer o bwysau a straen ers peth amser oherwydd y galwadau cynyddol ar y lefel bresennol o adnoddau sydd ar gael gyda'r newidiadau allweddol sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, sy'n arwain at ffordd newydd o ddarparu cymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Canlyniad:**
Cytunwyd bod adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyllid ADY yn cael ei gymeradwyo.

**2.5.7 Effaith Covid-19 ar Blant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin -** Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn manylu ar Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn sgil pandemig Covid-19, yr effaith ar ein plant a'n pobl ifanc, ac ymateb yr Adran/Cyngor i'r heriau a wynebwyd dros y chwe mis diwethaf.

Er nad oedd yr adroddiad yn cwmpasu'r holl agweddau ar waith yr Adran ers mis Mawrth, roedd yn rhoi cipolwg ar rai o'r heriau a'r atebion a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

**2.5.8 Diweddariad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** – Rhoddodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (WESP) 2017-21. Roedd yr adroddiad hefyd yn hysbysu'r Pwyllgor o'r datblygiadau disgwyliedig ym maes polisi Llywodraeth Cymru.

Mae'r WESP presennol wedi'i ymestyn am flwyddyn a bydd yn dod i ben erbyn mis Medi 2022 man hwyraf. Bydd y WESP nesaf yn gynllun 10 mlynedd hyd at 2031. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r templed cynllunio a'r meini prawf gydag Awdurdodau Lleol. Mae hyn a datblygiadau ategol arfaethedig yn dangos y bydd rhai newidiadau nodedig sydd â goblygiadau penodol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Sir Gaerfyrddin.

**Canlyniad:**
Cytunwyd y dylid cynnal gweithdy yn ddiweddarach (23 Mehefin, 2021) i drafod dogfen WESP yn fanwl a hyfforddiant mewn ysgolion.

**2.5.9 Cwricwlwm i Gymru** - Ym mis Ebrill, 2021 bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r cymorth ar gael i ysgolion a lleoliadau arbenigol Sir Gaerfyrddin gan y Cyngor Sir a'r consortiwm rhanbarthol, ERW, wrth iddynt roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith erbyn mis Medi, 2022.

### 2.6 Yr Adroddiadau Ychwanegol y Gofynnwyd Amdanynt

Ni ofynnodd y Pwyllgor am unrhyw adroddiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

### 2.7 Ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud cais am osod eitem ar yr agenda, ac os yw'n byw yn Sir Gaerfyrddin, yn berchen ar fusnes yn Sir Gaerfyrddin neu'n cael ei gyflogi yno, gall ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaenraglen Waith pob un o'r pum Pwyllgor Craffu ac mae manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan ar gael ar wefan yr Awdurdod:

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu.aspx#.WUffRdzTXZ7

Mae'r Is-adran Marchnata a'r Cyfryngau hefyd yn hysbysebu manylion ynghylch unrhyw eitemau yn y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Hefyd, anfonir llythyr at bob Cyngor Tref a Chymuned ar ran Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu yn hyrwyddo gwaith Pwyllgorau Craffu yn Sir Gaerfyrddin ac yn gwahodd cyfranogiad trwy awgrymu pynciau i'w hystyried yn y dyfodol a/neu fynychu cyfarfodydd i'w harsylwi.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2020/21, roedd Blaenraglen Waith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

## 3. Gweithgarwch Craffu Arall

### 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal ymarfer Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2020/21.

### 3.2 Ymweliadau Safle

#### 3.2.1 Ysgolion

Oherwydd y cyfyngiadau presennol, mae ymweliadau Craffu dal yn amhosibl. Caiff hyn ei adolygu cyn gynted ag y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei newid ac y gellir rhoi arferion gweithio diogel ar waith.

### 3.3 Sesiynau Datblygu

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu / seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2020/21, a chafodd aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd iddynt: -

- Hyfforddiant Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - nifer o sesiynau ym mis Mehefin 2020
- Hyfforddiant Zoom ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - Rhagfyr / Ionawr
- Hyfforddiant Ap newydd Mod.Gov (Cyflwynir gan Civica) - Hydref
- Hyfforddiant Craffu (Cyflwynir gan y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu) - Hydref
- Craffu Ar-lein (Cyflwynir gan y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu) - Tachwedd
- Cytundebau Adran 106 ac Ymgymeriadau Unochrog - Chwefror
- Briff ynghylch Brechu COVID-19 (Cynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) - Chwefror
- Cyflwyniad i Glefyd Coed Ynn a Rolau a Chyfrifoldebau'r Cyngor Sir - Mawrth
- Tyfu Sir Gaerfyrddin: Caffael Blaengar, cadwyni cyflenwi bwyd a Chyfleoedd yn y Dyfodol - Mawrth
- Anheddau Mentrau Gwledig - Mawrth
- Datblygiadau Un Blaned - Ebrill

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

## 4 Heriau

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i fod yn gyfnod heriol i'r Awdurdod ac mae'r Pwyllgor wedi parhau i chwarae rôl adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor. Cafodd gwasanaethau ac ysgolion yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant eu rhoi o dan bwysau sylweddol yn ystod pandemig y Coronafeirws. Roedd yr adran dal i fod o dan bwysau ar ddiwedd blwyddyn y Cyngor o ganlyniad i Covid-19.

Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

## 5 Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd yn ystod ail hanner 2020/21 a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Craffu Cyhoeddus er mwyn cael proses graffu symlach a mwy penodol.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel rhan o fonitro'r Flaenraglen Waith yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaenraglen Waith y Bwrdd Gweithredol.

Er mwyn gwella Craffu, bydd Aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaethau anffurfiol cyn cyfarfodydd.  Bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i chwilio am bynciau i'w trafod gan Gynghorau Tref a Chymuned a hyrwyddo ymgysylltiad cyhoeddus.

## 6 Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae’r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a’r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae’r cymorth a roddir i’r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Flaenraglen Waith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod;
- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gyda'r Bwrdd Gweithredol;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniad a datblygiad Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Blaenraglenni Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir yn: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk.

## 7. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant yn ystod blwyddyn 2020/21 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 5 cyfarfod yn ystod blwyddyn y Cyngor 2020/21.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Liam Bowen | 4 | 82% |
| Y Cynghorydd Kim Broom | 5 | 100% |
| Y Cynghorydd John Jenkins | 4 | 80% |
| Y Cynghorydd Betsan Jones | 4 | 80% |
| Y Cynghorydd Dot Jones | 4 | 80% |
| Y Cynghorydd Gary Jones | 5 | 100% |
| Y Cynghorydd Jean Lewis | 5 | 100% |
| Y Cynghorydd Shahana Najmi | 0 | 0% |
| Y Cynghorydd Darren Price | 5 | 100% |
| Y Cynghorydd Emlyn Schiavone | 5 | 100% |
| Y Cynghorydd Bill Thomas | 4 | 80% |
| Y Cynghorydd Edward Thomas | 5 | 100% |
| Y Cynghorydd Arwel Davies | 2 | 40% |
| Y Cynghorydd Dorian Williams | 5 | 100% |
| **Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
| Mr. Anthony Enoch | 4 | 80% |
| **Cynrychiolwyr yr Eglwys** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
| Mrs Vera Kenny | 3 | 60% |
| Parch D. Richards | 2 | 40% |
| **Dirprwyon** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | |
| Y Cynghorydd Sue Allen | 3 | |
| Y Cynghorydd Deryk Cundy | 1 | |
| **Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | |
| Y Cynghorydd Glynog Davies | 5 | |